***Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Wasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc – Tachwedd 2010***

## Crynodeb Gweithredol

Yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Mawrth 2008, cyhoeddwyd ei adroddiad: *Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru*. Nododd yr adroddiad hwn nifer o argymhellion. Cyhoeddwyd ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion hyn ym mis Ebrill 2008.

Mynychodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 31 Mawrth 2009. O ganlyniad i hyn, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad pellach ym mis Mai 2009: *Adroddiad y Pwyllgor Craffu ar ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.* Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion pellach ac ymatebodd y Gweinidog i'r rhain ar 25 Mehefin 2009.

Mynychodd y Dirprwy Weinidog dros Blant y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 29 Mehefin 2010 er mwyn cyfrannu at adolygiad y Pwyllgor o'r datblygiadau mewn gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc. Wedi hyn, cynhyrchodd y Pwyllgor ei *'Adolygiad Pellach o ddatblygiadau yn narpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru' (Medi 2010)* a chyflwynwyd 13 argymhelliad i'r Gweinidogion.

Unwaith eto, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n croesawu archwiliad ystyriol y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc o Eiriolaeth, sy'n fater pwysig, ac argymhellion y Pwyllgor.

Mae'r papur hwn yn darparu ymateb i'r 13 argymhelliad hyn a dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r canllawiau cynghorol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mehefin 2009 sy'n amlinellu'n glir y trywydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddilyn er mwyn cryfhau llais plant a phobl ifanc trwy weithredu *Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru* [1]. Mae'r Model yn cynnwys

- Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol (NIAB) (sy'n cynnwys pobl ifanc);
- Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad o fewn Llywodraeth y Cynulliad;
- Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol sy'n cynnig un pwynt cyswllt i bob plentyn a pherson ifanc;
- gwasanaeth eirioli arbenigol integredig isranbarthol neu ranbarthol a gomisiynwyd trwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu y bydd y Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru'n gwella darpariaeth gwasanaethau eirioli hygyrch, annibynnol o safon uchel yn sylweddol. Bydd yn fuddiol i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn gam enfawr ymlaen at fodloni ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawl y Plentyn, trwy sicrhau ein bod yn gwrando ar beth mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym ac yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

[1] http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/090803guidedeliveringadvocacyservicesmodelen.doc

## Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion

> ***Argymhelliad 1:*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau statudol heb unrhyw oedi pellach.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Canllawiau statudol "Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru" yn cael eu cyflwyno ar ffurf drafft yn fuan am ymgynghoriad. Ym mis Mehefin 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau cynghorol i amlinellu elfennau amrywiol y Model Eirioli'n glir a beth mae'n ei olygu. Eu diben oedd cyfathrebu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu gwaith eirioli a galluogi ac annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPPs) i osod y sylfeini ar gyfer comisiynu rhanbarthol/isranbarthol. Cyhoeddir diweddariadau ynghylch y Model yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu am y datblygiadau diweddaraf ac i bwysleisio'r neges y dylai'r CYPPs fod yn paratoi ar gyfer gweithredu elfen eirioli arbenigol integredig y Model yn rhanbarthol neu'n isranbarthol.

**Goblygiadau ariannol**: Ni fydd yna unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i gyhoeddi canllawiau statudol gan fod hyn yn ymwneud ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau eirioli yn hytrach na gwasanaethau newydd. Mae arian yn y system eisoes ar gyfer y ddarpariaeth hon, wedi'i ddyrannu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol.

> ***Argymhelliad 2:*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a yw'r dull consortia yn realistig ac yn ymarferol, neu a fyddai model cenedlaethol yn ffordd well ymlaen. Mae'n hanfodol nad yw cynnal adolygiad yn amharu ar y dull cyfredol.*

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad hirdymor i ddarparu mynediad cyffredinol i wasanaethau eirioli effeithiol fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â chyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol yn ogystal â hawl plentyn i gael y gwasanaethau personol, addysgol ac iechyd gorau posibl.

Wedi proses faith a gofalus o gasglu tystiolaeth, lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fodel consortiwm ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli er mwyn gwella safonau a mynediad lleol. Gwnaethpwyd hyn trwy wasanaeth eirioli integredig, 'un stop' a oedd yn cynnwys consortiwm o sefydliadau partner a gomisiynwyd trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae gweithredu drwy gonsortiwm yn galluogi gwasanaeth eirioli integredig ledled rhanbarthau ac ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, gan

ganolbwyntio'n arbennig ar ddarparu gwasanaethau eirioli statudol a mwy o gymorth i helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed i fynegi pryder neu wneud cwyn.

Cryfder allweddol y dull hwn o weithredu yw'r cysylltiad a wna rhwng llais y plentyn neu'r person ifanc â gwasanaethau prif ffrwd. Bydd yn darparu ffordd o integreiddio a llywio'r ddarpariaeth ledled Cymru heb danseilio cyfrifoldeb lleol dros ddatrys cwynion neu ddiffygion gwasanaethau.  Rydym yn credu'n gryf y bydd gan y plant a'r bobl ifanc a fydd â rheswm dros ddefnyddio'r gwasanaeth hwn hyder ynddo.

Datblygwyd y comisiynu rhanbarthol drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ar sail ymchwil a safbwyntiau grwpiau perthnasol, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn barod bob amser i gymryd camau i fod yn siwr bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud wrth ddatblygu polisi, ac felly bydd yn monitro ac yn adolygu'r dull o gomisiynu eirioli drwy gonsortiwm ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, unwaith y bydd y dull wedi cael digon o amser i ymsefydlu a datblygu.

Bydd yna drefniadau cadarn ar waith i fonitro effeithiolrwydd y dull comisiynu rhanbarthol/is-ranbarthol trwy'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol a Changen Cyfranogiad ac Eiriolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.

Goblygiadau ariannol: **Dim**

***Argymhelliad 3:*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod comisiynwyr yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth bennu ansawdd, sicrhau annibyniaeth, a dylanwadu ar y broses o gomisiynu gwasanaethau eirioli er mwyn sicrhau bod ganddynt hyder yn y gwasanaethau a ddarperir.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Canllawiau Cynghorol (Mehefin 2009) yn nodi y bydd y Canllawiau Statudol yn nodi eto bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chomisiynu'r gwasanaeth eirioli yn ogystal â'r broses adolygu. Caiff Comisiynwyr a'r CYPPs eu hatgoffa o'r angen i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith o gomisiynu, adolygu a gwerthuso'r gwasanaethau eirioli'n rheolaidd trwy'r diweddariad eirioli y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Caiff hwn ei ddosbarthu i gronfa ddata fawr o asiantaethau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio dull o lunio polisïau sy'n seiliedig ar hawliau ers Ionawr 2004, pan gymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnig cyfarfod llawn a oedd yn mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn ffurfiol fel y sylfaen i wneud polisïau yn y maes hwn.  Rydym wedi ymrwymo hefyd i weithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Cymru ers iddynt gael eu lansio yn 2008.

Mae plant a phobl ifanc yn hysbysu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynrychiolaeth ar y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, ac e-

grŵp pellach o blant a phobl ifanc sy'n cynghori.  Bydd hyn yn sicrhau safon ac annibyniaeth y gwasanaethau eirioli a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Goblygiad ariannol:** Dim

| |
|---|
| ***Argymhelliad 4:*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a diffinio hawliau statudol plant a phobl ifanc i eiriolaeth, gan roi blaenoriaeth i ddiffinio "plant mewn angen", er mwyn mynd i'r afael ag amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth.* |

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn sicrhau bod y Canllawiau Statudol yn ailgynhyrchu'r Atodiad i'r Canllawiau Cynghorol (Mehefin 2009) sy'n nodi'r grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â hawl statudol i gael gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol.

Nodir cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol dros ddarparu gwasanaethau eirioli i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal yn glir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004 a'r canllawiau statudol cysylltiedig "Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Effeithiol i Blant a Phobl Ifanc sy'n gwneud Cynrychiolaeth neu Gŵyn dan Ddeddf Plant 1989".

Mae'n hanfodol bod gan y rheiny sydd angen neu sydd â hawl i ddefnyddio gwasanaethau, yn ogystal â'r rheiny sy'n comisiynu ac yn darparu'r gwasanaethau hynny, ddealltwriaeth glir o beth yw'r gwasanaethau.

Bydd y neges hon yn cael ei phwysleisio hefyd trwy'r Canllawiau, gan gynnwys sut mae comisiynwyr a phartneriaid darparu'n hyrwyddo, yn cyhoeddi ac yn cyfeirio pobl at eu gwasanaethau arbenigol a chyffredinol.

**Goblygiadau ariannol**: Dim.

| |
|---|
| ***Argymhelliad 5:*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhieni corfforaethol iddynt yn gwybod am eu hawliau i eiriolaeth.* |

**Ymateb: Derbyn.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n atgoffa rhieni corfforaethol yn rheolaidd o'u cyfrifoldeb dros bob plentyn dan eu gofal.  Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn seiliedig ar waith gwreiddiol yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol), "Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal".  Mae "Pe bai'n blentyn i mi" yn nodi swyddogaeth aelodau etholedig awdurdodau lleol i amddiffyn hawliau plant sy'n derbyn gofal a'u grymuso i leisio'u barn ar faterion a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.  Mae hefyd yn nodi'r camau y dylai cynghorwyr eu cymryd i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal

yn cael gwrandawiad ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i roi sylwadau ar y gwasanaethau a'r polisïau sy'n effeithio arnynt. Bydd y Canllawiau Statudol yn cyfeirio at y ddogfen hon fel enghraifft o arfer da i bob ymarferydd sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc.

Mae "Pe bai'n blentyn i mi" yn cynnwys cyngor a chwestiynau allweddol i aelodau etholedig o ran craffu ar effeithiolrwydd gwasanaethau eu hawdurdodau i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys natur a chwmpas gwasanaethau eirioli; sut a phryd y caiff plant a phobl ifanc wybod am y gwasanaethau eirioli sydd ar gael; yr amgylchiadau lle gellir manteisio ar y gwasanaeth a chyfeiriadau at ddarpariaethau eirioli; a oes swyddog cwynion ar gael, gan gynnwys sut y caiff plant a phobl ifanc eu cynorthwyo i gwyno am eu hawdurdodau neu sefydliadau eraill.

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, bydd angen i awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithrediad y ddarpariaeth i'w gyflwyno i'w haelodau etholedig. Mae cael adborth rheolaidd gan blant a phobl ifanc yn hanfodol i gynnal safonau a gwella gwasanaethau, a bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol archwilio ffyrdd arloesol o sicrhau bod eu gwasanaethau'n parhau i fod yn effeithiol, yn ymatebol ac yn hygyrch.

Bydd y Canllawiau Statudol yn amlygu cyfrifoldebau dros roi trefniadau ar waith i fonitro gwasanaethau eirioli, eu hansawdd a'u heffeithiolrwydd, fel y gellir gwerthuso'r perfformiad a'r canlyniadau i blant.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

***Argymhelliad 6:*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r hyn a olyga wrth "cyffredinol" ac yn nodi'n glir yr hawl sydd gan bob plentyn a pherson ifanc i eiriolaeth, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyson a theg ar gael ledled Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Nodir diffiniad clir o eiriolaeth 'cyffredinol' neu 'fynediad agored' yn y Canllawiau Cynghorol (Mehefin 2009) a bydd yn cael ei nodi eto yn y Canllawiau Statudol drafft.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau eirioli ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw eu problemau neu eu pryderon. Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gael cymorth i gymryd rhan mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt ac i gael eu clywed. Mae hyn yn egluro gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o gael gwasanaethau eirioli cyffredin i bob plentyn a pherson ifanc, yn ogystal â gweithredu datganiad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth y dylai plant a phobl ifanc allu cael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol yn hawdd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan y canlynol:

i) Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol sy'n agored i bob plentyn a pherson ifanc wedi ei fodloni bellach. Lansiwyd MEIC ym Mai 2010 ac mae wedi'i hyrwyddo'n eang i blant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Hon yw'r llinell gymorth gyntaf o'i math yn genedlaethol. Mae'n rhoi un pwynt cyswllt i blant a phobl ifanc yng Nghymru dros y ffôn, ar neges destun a neges wib 7 niwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i blant a phobl ifanc 0-25 oed yng Nghymru a

bydd yn darparu gwybodaeth, yn eu cyfeirio at wasanaethau eraill ac yn rhoi mynediad i eiriolwyr proffesiynol annibynnol fel y bo angen i'w cynorthwyo gyda'u problemau.

ii) Darpariaeth gwasanaethau eirioli cyffredinol lleol. Mae nifer o'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPPs) eisoes yn ymrwymedig i ddatblygu mwy o ddarpariaethau eirioli lleol/rhanbarthol sy'n hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc a/neu wedi nodi'r angen i wella ac ehangu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc fel blaenoriaeth leol. Bydd CYPPs yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran sicrhau bod yna gydweithio yn digwydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn datblygu'n glir. Mae sawl model gwahanol yn bodoli; mae rhai CYPPs yn ariannu Gwasanaethau Eirioli Mynediad Agored trwy grantiau amrywiol tra bo partneriaid lleol eraill yn ymrwymo trwy gyfuno cyllidebau craidd. Dylid ystyried y gwaith o ddatblygu a chomisiynu Gwasanaethau Eirioli Mynediad Agored ochr yn ochr â chomisiynu gwasanaethau eirioli proffesiynol, annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Goblygiadau ariannol**: Efallai y bydd gwasanaethau a chyllidebau awdurdodau lleol o dan fwy o bwysau er mwyn ateb y galw cynyddol am wasanaethau . Bydd Canllawiau Comisiynu'n cael eu darparu fel rhan o'r Canllawiau Statudol a fydd o gymorth i gyd-gomisiynu'n effeithiol, cyfuno cyllidebau, cynllunio a chael gafael ar wasanaethau eirioli arbenigol integredig.

***Argymhelliad 7:*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid blaenoriaethu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, ond na ddylid anghofio am ddarpariaeth gyffredinol.*

**Ymateb: Derbyn**.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad hirdymor i ddarparu mynediad cyffredinol i wasanaethau eirioli effeithiol fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â chyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol yn ogystal â hawl plant a phobl ifanc i gael y gwasanaethau personol, addysgol ac iechyd gorau posibl.

Rydym yn cytuno bod yn rhaid i wasanaethau eirioli gael eu datblygu a'u darparu ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o gyfranogiad a hawliau eraill plant a phobl ifanc er mwyn bod yn effeithiol, yn arbennig lle gallai hyn arwain at blant a phobl ifanc yn cael cymorth i eirioli dros eu hunain.

Bydd Cangen Cyfranogiad ac Eiriolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynorthwyo unrhyw awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth neu ar eu pen eu hunain i ddatblygu a/neu gynnal gwasanaethau cyffredinol lleol. Gallai'r Gangen gynnig enghreifftiau o astudiaethau achos gwahanol fodelau a ddefnyddir yn ardaloedd gwahanol yr awdurdodau lleol a'u cynorthwyo i weithredu model yn lleol. Mae'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn awyddus i edrych ar y ffordd y dylai awdurdodau lleol fod yn sicrhau gwasanaethau eirioli annibynnol cyffredinol, a bydd yn ceisio dylanwadu ar awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 8:** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yn ei chanllawiau statudol nad yw prynu heb gontract yn dderbyniol ac na ddylai ddigwydd ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Canllawiau Statudol yn nodi nad yw 'prynu heb gontract' yn cael ei ystyried fel arfer da ar gyfer y math hwn o gomisiynu a'i fod mewn gwirionedd yn mynd yn groes i egwyddorion y Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eirioli yng Nghymru. Wrth gwrs, bydd yna adegau pan mai prynu heb gontract fydd yr unig ddull y gellir ei fabwysiadu, er enghraifft, pe bai plentyn neu berson ifanc angen eiriolwr â sgiliau ieithyddol arbennig, siaradwr iaith dramor, Iaith Arwyddion Prydain ac ati. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, byddai'n dderbyniol i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth eirioli trwy brynu heb gontract.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 9:** *Dylai unrhyw adolygiad o'r dull consortia o gomisiynu gwasanaethau eirioli ystyried a fyddai model cenedlaethol yn dileu'r angen i brynu heb gontract.*

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Lluniwyd y Model consortiwm a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi proses faith a gofalus o gasglu tystiolaeth. Ei nod yw gwella safonau a mynediad lleol trwy wasanaeth eirioli integredig, 'un stop' sy'n ymwneud â chonsortiwm o grwpiau, a gomisiynwyd trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Cryfder allweddol y model yw'r cysylltiad a wna rhwng llais y plentyn neu'r person ifanc â gwasanaethau prif ffrwd. Bydd yn darparu ffordd o integreiddio a llywio'r ddarpariaeth ledled Cymru heb danseilio cyfrifoldeb lleol dros ddatrys cwynion neu ddiffygion gwasanaethau. Rydym yn credu'n gryf y bydd gan y plant a'r bobl ifanc a fydd â rheswm dros ddefnyddio'r gwasanaeth hwn hyder ynddo.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn barod bob amser i gymryd camau i fod yn siwr bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud wrth ddatblygu polisi, ac felly bydd yn monitro ac yn adolygu'r dull o gomisiynu eirioli drwy gonsortiwm ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, unwaith y bydd y dull wedi cael digon o amser i ymsefydlu a datblygu.

Mae yna drefniadau cadarn ar waith i fonitro effeithiolrwydd y model comisiynu rhanbarthol/is-ranbarthol trwy'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol a Changen Cyfranogiad ac Eiriolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi nad yw'r arfer o brynu heb gontract yn cael ei ystyried yn arfer da, heblaw mewn achosion anghyffredin iawn (fel y mae'r ymateb i argymhelliad 8 yn ei nodi).

**Goblygiadau ariannol**: Dim

**Argymhelliad 10:** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried beth yw'r ffordd orau iddi gefnogi hunaneiriolaeth ac eirioli ar ran cymheiriaid, er mwyn grymuso plant a phobl ifanc i ddysgu'r sgiliau a fydd o fudd iddynt yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn**.

Yn unol â'n hymrwymiad i wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau Plentyn (UNCRC) yng Nghymru fesul cam, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried eiriolaeth yn gyfraniad pwysig tuag at gyfranogiad (Erthygl 12) a dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'u hawliau a sut i'w hymarfer (Erthygl 42). Mae hon yn egwyddor sylfaenol o fewn y Model. Mae eiriolaeth yn ei hunan yn ymwneud â chynorthwyo plant a phobl ifanc gyda'r nod terfynol o roi digon o hyder iddynt, a'u grymuso'n ddigonol, i hunaneirioli.

Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol **- Tystysgrif Lefel 3 mewn Eiriolaeth Annibynnol** - er mwyn sicrhau bod gan eiriolwyr plant a phobl ifanc ddigon o allu, sgiliau a phrofiad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyd-ariannu'r gwaith o ddatblygu deunydd cwrs ar gyfer uned benodol o'r cymhwyster - *Eiriolaeth annibynnol i Blant a Phobl Ifanc*. Mae deunydd y cwrs yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae yna elfen o fewn yr uned ar hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfranogiad. Mae yna elfen hefyd ar wahanol fathau o eiriolaeth fel eirioli ar ran cymheiriaid a hunaneirioli. Bydd eiriolwyr proffesiynol annibynnol yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gwblhau'r hyfforddiant hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 11:** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y dull o arolygu gwasanaethau eirioli yn rhoi ystyriaeth eang i ganlyniadau'r gwasanaeth a'r berthynas hirdymor y mae eiriolwyr wedi'i meithrin gyda defnyddwyr gwasanaethau. Drwy wneud hyn, dylai arolygiadau ddefnyddio safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc fel man cychwyn. Dylai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru arwain arolygiadau a dylai gydweithio'n agos ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gan y Model Eiriolaeth fwriad amlwg i sicrhau safon a diogelwch gwasanaethau eirioli, yn lleol ac yn genedlaethol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda chynrychiolwyr o AGGCC ynghylch trefniadau arolygu a llywodraethu. Ar hyn o bryd, mae eiriolaeth yn ddarpariaeth statudol i rai plant a phobl ifanc o dan Ddeddf Plant 1989, ac felly caiff hyn ei arolygu ar hyn o bryd gan AGGCC fel rhan o'u gwaith o arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Caiff hyn ei asesu hefyd wrth werthuso gwybodaeth reoli a dangosyddion perfformiad awdurdodau lleol.

Er mwyn datblygu'r gwaith o arolygu gwaith eirioli yn y dyfodol, bydd yn rhaid i bob eiriolwr proffesiynol a darparwr gwasanaeth eirioli ddechrau gweithio tuag at fframwaith gwella sy'n seiliedig ar safonau a chanlyniadau diffiniedig ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddai'n ddoeth i'r sector ddechrau gweithio tuag at safonau cyffredin cyn gynted â phosibl. Mae'n siŵr bod nifer yn gwneud hyn i raddau helaeth eisoes.

I'r diben hwn, mae fframwaith canlyniadau eiriolaeth, sy'n cynnwys y Safonau Cenedlaethol i ddarparwyr eiriolaeth a dangosyddion canlyniadau, yn cael ei gynhyrchu ar

gyfer ymgynghoriad.  Mae gweithgor wedi'i sefydlu sy'n cynnwys swyddogion, aelodau o NIAB a chynghorwyr proffesiynol o fewn y Cynulliad.  Byddwn yn gofyn am farn gychwynnol cynrychiolwyr y sector.  Bydd y drafft yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach y flwyddyn hon.  Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gydag arolygiaethau i archwilio sut i ddefnyddio'r fframwaith Canlyniadau fel sail i arolygu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ailedrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth recriwtio, dethol, hyfforddi ac asesu eiriolwyr priodol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.  Dylai Partneriaethau CYP geisio sicrhau bod unrhyw wasanaeth eirioli y maent yn ei ddarparu'n bodloni neu'n gweithio tuag at y safonau recriwtio gofynnol, a bydd hyn yn cael ei fonitro.

**Goblygiadau ariannol:**  Dim

**Argymhelliad 12:** *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mapio'r gwasanaeth eirioli a ddarperir yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu a chynnal trosolwg o'r fath.*

**Ymateb: Derbyn**

**Ymateb:**  Mae'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol (NIAB) wrthi'n monitro a mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol eisoes, wedi iddynt dderbyn cyflwyniadau gan Uned Cefnogi Partneriaethau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r Grŵp Darparwyr Eiriolaeth.  Mae angen i eiriolwyr MEIC gael mynediad i'r wybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth leol, felly datblygodd Cywaith (cydweithrediad rhwng pum elusen: Plant yng Nghymru, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), Tros Gynnal, Voices from Care Cymru a Pro-mo Cymru a enillodd y contract i ddarparu MEIC) gronfa ddata eiriolaeth. Mae hwn yn rhoi darlun i ni o'r ddarpariaeth eiriolaeth ledled ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Bydd hyn yn galluogi i ni greu map o'r ddarpariaeth eiriolaeth sydd ar gael ledled Cymru. Ar hyn o bryd, defnyddir y gronfa ddata gan weithwyr MEIC. Cronfa ddata addasadwy yw hon sydd ar gael ar-lein. Gellir addasu'r system i bob un sydd angen ei gweld dros y rhyngrwyd a'i rhannu â phartneriaid, ac yn wir ei haddasu a wneir, ond bydd angen ei diweddaru'n rheolaidd gan fod y 'map' yn newid yn gyson.

**Goblygiadau ariannol**: Mae'r gost o ddatblygu'r gronfa ddata wedi'i chynnwys eisoes yn y contract i ddarparu MEIC.

**Argymhelliad 13:** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn fwy eglur ynghylch swyddogaethau, disgwyliadau a chynllun gwaith y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, a'i Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn.**

Sefydlwyd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol i drafod a chynghori Gweinidogion ar bob mater sy'n ymwneud â gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n cyflwyno ei ganfyddiadau i Weinidogion Cymru'n uniongyrchol.  Gall y Bwrdd roi ei farn i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn ffyrdd eraill hefyd, er enghraifft, trwy ddarparu tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan y Bwrdd ddyletswydd i sicrhau

bod y Model hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol ac i sicrhau safon a chysondeb gwasanaethau eirioli ledled Cymru, ynghyd â'r cyfrifoldebau allweddol canlynol.

- Cynnal trosolwg strategol, annibynnol, o ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol;

- cynghori ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau eirioli gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gwasanaethau eirioli effeithiol i blant a phobl ifanc yng Nghymru;

- hyrwyddo arfer gorau yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau eirioli a nodi a datblygu'r sail dystiolaeth;

- cynghori Gweinidogion Cymru ar y trefniadau comisiynu ar gyfer eiriolaeth yn genedlaethol ac yn lleol a pharatoi safbwynt i Weinidogion Cymru ei ystyried ar drefniadau a wneir gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc i gomisiynu a sicrhau darpariaeth gwasanaethau eirioli ar lefel leol a/neu ranbarthol;

- cynghori Gweinidogion Cymru ar y fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gwasanaethau eirioli a'r gweithlu; a,

- chynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol ar ddarpariaeth ac effeithiolrwydd gwasanaethau eirioli yng Nghymru i Weinidogion Cymru.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyfrannu at fersiwn diwygiedig y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth ac mae'n gweithio'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Plant i sicrhau bod y ddarpariaeth gyffredinol a ddarperir gan MEIC yn diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn cynnwys 4 person ifanc, 4 oedolyn a Chadeirydd. Mae gan holl aelodau'r bwrdd ryw fath o arbenigedd ym maes eiriolaeth - mae rhai wedi bod yn ddefnyddwyr gwasanaethau, ac eraill yn eiriolwyr mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i blant a phobl ifanc.  Mae'r bwrdd wedi'i sefydlu ers dwy flynedd bellach ac mae wedi bod yn allweddol yn natblygiad y Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol, MEIC. Yn ystod ei gyfarfod diwethaf (Medi 2010) cytunwyd ar gynllun gwaith canol tymor. Bydd hwn yn cynnwys monitro darpariaeth MEIC, sicrhau mwy o gyfathrebu a chyswllt â chyrff perthnasol eraill, ac adrodd i'r Gweinidog a hysbysu eraill ar gynnydd a phryderon.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu rhoi gwybodaeth am ei ddatblygiadau, ei gasgliadau a'r hyn y mae'n ei gyflawni ar y rhyngrwyd i sicrhau ei fod yn gweithredu'n dryloyw ac yn agored bob amser.

**Goblygiadau ariannol**: Telir am gostau hwyluso'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a'r gwaith o ddatblygu a chaffael gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb Eirioli o fewn Prif Grŵp Gwariant  Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS).